**Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig**
—
**Economy, Trade, and Rural Affairs Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddEconomi@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddEconomi
0300 200 6565
—
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddEconomy@senedd.wales
senedd.wales/SeneddEconomy
0300 200 6565

Lesley Griffiths AS
Y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd

3 Ionawr 2024

Annwyl Lesley

## Craffu Cyffredinol ar Waith y Gweinidog – 13 Rhagfyr 2023

Diolch am eich amser gyda'r Pwyllgor i drafod materion yn eich portffolio. Mae sawl cwestiwn wedi codi o'r sesiwn ddefnyddiol iawn hon, a chytunodd yr Aelodau fynd ar eu trywydd gyda chi i gael eglurhad pellach.

## Cynllun Ffermio Cynaliadwy

Mae'r Aelodau'n croesawu agoriad yr ymgynghoriad 12 wythnos ar gynigion manwl y Cynllun Ffermio Cynaliadwy. Yn y Pwyllgor, trafodwyd y cyfraddau talu sy'n gysylltiedig â'r cynllun hwn. Nododd yr Aelodau na fydd y cyfraddau talu'n cael eu cyhoeddi tan haf 2024, ar ôl canlyniad yr ymgynghoriad ar y cynllun a dyluniad terfynol y cynllun. Mae Aelodau'n pryderu am yr hyn y gall ansicrwydd ynghylch cyfraddau talu ei olygu i ffermwyr a'u busnesau:

- A all y Gweinidog nodi ym mha ffordd y bydd yn ymgysylltu â'r diwydiant ffermio o ran cyfraddau talu, i sicrhau y bydd yn ymrwymo i'r cynllun hwn a chymryd rhan ynddo, a thrwy hynny sicrhau ei lwyddiant?

## Cymhwyso'r hyn a ddysgwyd o weithredu Cynllun Cynefin Cymru

Rhaid i'r broses o ddatblygu'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy ystyried y problemau amrywiol a nodwyd gan randdeiliaid ynghylch dyluniad Cynllun Cynefin Cymru. Nodwyd y pryderon hyn mewn gohebiaeth ddiweddar rhwng y Gweinidog a'r Pwyllgor, ac fe'u codwyd yn y Cyfarfod Llawn gan Aelodau ar draws y Senedd. Yn ei hymateb i lythyr y Pwyllgor ar Gynllun Cynefin Cymru, dywedodd y

Gweinidog: "Rydym wedi dysgu gwersi gwerthfawr wrth ddatblygu a chyflwyno'r cynllun a byddwn yn defnyddio'r gwersi hyn wrth i ni gwblhau'r SFS":

- A all y Gweinidog ddarparu rhestr o’r gwersi a ddysgwyd wrth ddylunio Cynllun Cynefin Cymru a fydd yn cael eu hystyried ar gyfer cwblhau’r Cynllun Ffermio Cynaliadwy a’i roi ar waith?

## Rheoliadau llygredd amaethyddol

Mae’r Aelodau’n croesawu cynnig y Gweinidog i roi’r wybodaeth ddiweddaraf i’r Pwyllgor yn y flwyddyn newydd am waith ar fesurau amgen:

- Mae'r Aelodau'n edrych ymlaen at gael y diweddariad hwnnw ar yr asesiad o gynigion ar gyfer mesurau amgen cyn gynted â phosibl, o gofio mai mesur dros dro a roddwyd ar waith ar gyfer blwyddyn galendr 2024 yw'r dull gwell ar gyfer rheoli maethynnau.

## Clefydau anifeiliaid

Cafwyd trafodaeth ynghylch parodrwydd ar gyfer brigiad o achosion o glefydau anifeiliaid yng Nghymru, gan gynnwys rheoli’r risgiau a bod yn barod ar gyfer mwy nag un brigiad o achosion ar y tro. Trafodwyd yr amrywiol glefydau hysbysadwy, gan gynnwys Clwy'r Traed a'r Genau, gan fod Twrci wedi gweld brigiad o achosion o’r clwyf hwnnw.

- Mae'r Aelodau'n croesawu'r gwaith rhagweithiol sy'n cael ei wneud, a byddent yn gwerthfawrogi gweld yr adroddiad cryno o'r ymarfer a'r gweithdai diweddar, ar ôl iddynt gael eu cwblhau, i helpu i ddeall unrhyw fylchau o ran parodrwydd a sut yr eir i'r afael â'r rhain.
- Byddai'r Aelodau'n gwerthfawrogi cael mwy o wybodaeth yn benodol am barodrwydd a'r stociau o frechlynnau sydd ar gael ar gyfer clefyd firaol y Tafod Glas o ystyried y datgeliad diweddar yn Lloegr.

Gan y byddwch yn dod i sesiwn graffu ar gynigion Llywodraeth Cymru ynghylch ei Chyllideb Ddrafft ar gyfer 2024-25 ar 18 Ionawr, a chan y bydd y Pwyllgor yn cyflwyno adroddiad i’r Senedd ar y gyllideb i faterion gwledig ar ôl hynny, byddai’n ddefnyddiol cael eich ymateb i’r llythyr hwn cyn i’r Pwyllgor gyfarfod ar 18 Ionawr.

Cofion cynnes,

Paul Davies AS
Cadeirydd: Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg